CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL	
PWYLLGOR:	**Pwyllgor Safonau**
DYDDIAD:	**14 Rhagfyr 2022**
TEITL YR ADRODDIAD:	**Aelodau Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor Safonau**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Cynghori'r Pwyllgor Safonau ynglŷn â'r ddau gynghorydd cymuned a benodwyd i'r Pwyllgor Safonau**
ADRODDIAD GAN:	**Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.llyw.cymru 01248 752586**
SWYDDOG CYSWLLT:	**Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro lbxcs@ynysmon.llyw.cymru 01248 752586**

1. CEFNDIR

O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sydd yn cynnwys dim mwy na 9 aelod, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yn cynnwys pum aelod annibynnol, dau gynghorydd cymuned (gyda'r ddwy sedd yn wag) a dau gynghorydd sir (a benodir yn flynyddol gan y Cyngor). Mae gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma.

Rhaid i aelodau cyngor cymuned gael eu henwebu ar y cyd gan y cynghorau cymuned yn dilyn etholiad llywodraeth leol (neu os bydd un ohonynt yn rhoi'r gorau i fod yn gynghorydd cymuned ar unrhyw adeg).

Felly, yn unol â'r broses aethpwyd ati i benodi dau gynghorydd cymuned i Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022.

2. PROSES

Ceir manylion am y broses i benodi dau gynghorydd cymuned i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022. Mae'r adroddiad ar gael ar y ddolen hon.

Ar 30 Mehefin, ysgrifennodd y Swyddog Monitro at holl glercod y cynghorau cymuned yn gofyn am enwebiadau erbyn 30 Medi 2022 fan bellaf. Cafodd nodyn atgoffa ei anfon ar 12 Medi 2022. Erbyn y dyddiad cau, roedd pedwar enwebiad dilys wedi dod i law.

Ar 6 Hydref 2022, cynhaliwyd pleidlais bost gyda'r holl gynghorau cymuned yn gofyn iddynt ddewis hyd at ddau o'r pedwar ymgeisydd (oherwydd bod dwy sedd wag ar y Pwyllgor). Gofynnwyd iddynt ddychwelyd y papur pleidleisio i'r Swyddog Monitro erbyn 19 Tachwedd 2022. Cafwyd ymateb gan 16 o gynghorau tref a chymuned a derbyniwyd 31 o bleidleisiau.

Ar 23 Tachwedd 2022, dilyswyd y broses a ddilynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a chadarnhawyd pwy oedd yr ymgeiswyr llwyddiannus.

Er bod yr enwebiadau'n cael eu gwneud ar y cyd gan y 40 cyngor tref a chymuned yn ardal Cyngor Sir Ynys Môn, rhaid i'r penderfyniad i benodi'r ddau gynghorydd llwyddiannus fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau gael ei wneud yn ystod cyfarfod ffurfiol o Gyngor Sir Ynys Môn. Disgwylir i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022.

Os ydi'r Cyngor yn cytuno, bydd y ddau gynghorydd yn cael eu penodi fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau tan yr Etholiadau llywodraeth leol nesaf neu cyhyd â'u bod yn parhau fel cynghorwyr cymuned; pa bynnag un sydd gyntaf.

3. YMGEISWYR LLWYDDIANNUS

Yn dilyn y bleidlais y ddau ymgeisydd llwyddiannus oedd:-

- Cynghorydd Margaret Ann Thomas o Gyngor Tref Llangefni a
- Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran

4. PENDERFYNIAD Y CYNGOR SIR

Rhoddir diweddariad llafar ar y trafodaethau a'r argymhelliad a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 6 Rhagfyr 2022 yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 14 Rhagfyr 2022.

5. ARGYMHELLIAD

Bod y Pwyllgor Safonau yn

(a) nodi cynnwys yr adroddiad hwn; a

(b) derbyn diweddariad llafar ar benderfyniad y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2022 mewn perthynas â'r penodiadau hyn.